Rhan 3B – Cylch Gorchwyl a Dirprwyo Dyletswyddau i Is-bwyllgorau a Chyrff eraill

1.3 Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol

1.3.1 Mae'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi'i ffurfio o 12 o Aelodau, yn cynnwys yr Aelod Gweithredol sydd â chyfrifoldeb am Drafnidiaeth gan bob un o'r 10 Cyngor Cyfansoddol a'r 2 Aelod na chânt bleidleisio o'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol, a enwebir yn flynyddol, fydd yn gweithredu fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor.

1.3.2 Gall yr Is-bwyllgor gyfethol i'w aelodaeth unigolion sydd â buddiant ym musnes yr Is-bwyllgor, ond ni chaiff y cyfryw unigolyn (unigolion) cyfetholedig bleidleisio ar unrhyw fater.

1.3.3 Mynychir yr Is-bwyllgor gan Brif Weithredwr un o'r Cynghorau Cyfansoddol, a enwebwyd gan Grŵp y Prif Weithredwyr Rhanbarthol, y gellir ei wahodd i siarad ond ni chaiff bleidleisio ar unrhyw fater.

1.3.4 Mae'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol yn gyfrifol am:

(a) datblygu a chydgysylltu cynigion ar gyfer strategaeth drafnidiaeth ranbarthol integredig sy'n ategu dyheadau economaidd a gofodol strategol y Fargen Ddinesig a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd;

(b) gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru i ddiffinio a datblygu blaenoriaethau cysyniad Metro De-ddwyrain Cymru a chynorthwyo i'w gyflawni, yn cynnwys datblygu llwyfan ticedu integredig sengl ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus ledled y rhanbarth; a

(c) hyrwyddo ac annog trafnidiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd i, ac oddi wrth ac o fewn rhanbarth y Cyd-bwyllgor Corfforaethol.

1.3.5 O ran Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, bydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Ranbarthol yn ystyried cynigiadau ar gyfer:

(a) gwella cysylltedd trafnidiaeth i gynorthwyo datblygu economaidd a chynllunio defnydd tir, yn cynnwys hyrwyddo llwybrau awyrennu integredig;

(b) sicrhau y caiff diogelwch, cynaliadwyedd, cynhwysiant cymdeithasol, iechyd a'r amgylchedd eu hystyried mewn polisïau a rhaglenni

trafnidiaeth, gan fodloni gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;

(c) dilyn safonau ansawdd uchel ar gyfer trafnidiaeth gan ddefnyddio arferion gorau ac arloesi; a nodi a monitro allbynnau a deilliannau;

(d) bod yn fan rhanbarthol o gydgysylltu ar gyfer rhaglenni cydategol gan Lywodraeth Cymru / Prifddinas-Ranbarth Caerdydd megis ULEV;

(e) trosglwyddo i gynigiad Rhwydwaith Bysiau Rhanbarthol integredig ac effeithiol.

1.3.6 Dirprwyir y swyddogaethau a ganlyn i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol oddi wrth y Cyd-bwyllgor Corfforaethol:

(a) paratoi strategaethau rhanbarthol, yn cynnwys Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, sy'n cynnwys polisïau, cynigion a rhaglenni cludiant;

(b) gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru, grwpiau defnyddwyr, diwydiant a rhanddeiliaid eraill i gydgysylltu cynllunio a gweithrediadau trafnidiaeth ledled y rhanbarth ar ran y Cyd-bwyllgor Corfforaethol;

(c) datblygu Cynlluniau Ymgeiswyr trafnidiaeth ar gyfer eu hasesu o dan Fframwaith Buddsoddi SEWCJC; a

(d) darparu cynghorion ac arsylwadau yn ymwneud â Chynlluniau Ymgeiswyr, gyda goblygiadau ar gyfer trafnidiaeth, a gyflwynwyd i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol gan gyrff eraill.

1.3.7 Gall y Cyd-bwyllgor Corfforaethol sefydlu is-grwpiau neu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, yn cynnwys Grŵp Adolygu Trafnidiaeth Rhanbarthol, ar gyfer unrhyw fater y maent yn ystyried y byddai'n cael ei drin yn well yn y modd hwn, ond ni chaiff yr is-bwyllgor yr hawl i ddirprwyo unrhyw ran o'i swyddogaethau llunio penderfyniadau i unrhyw is-grŵp neu grŵp gorchwyl a gorffen o'r fath.